Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**MAI 2025**

**Croeso** i rifyn mis Mai o'r Bwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae rhifyn y mis hwn yn cynnwys newyddion cyffrous am gydweithrediad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, diweddariadau ar hyfforddiant, ac adborth o'r Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth ADUS.
Parhewch i rannu eich barn a'ch adborth gyda ni.

**ADUSau wedi'u comisiynu**
Mae’r Hwb Cydgysylltu wedi cael 1 hysbysiad ADUS y mis hwn, gan ddod â chyfanswm yr ADUSau sydd wedi'u comisiynu ers 1 Hydref i 22.

Ymarfer Plant: 13
Ymarfer Oedolion: 3
Yn ymwneud â Cham-drin Domestig: 4
Yn ymwneud ag Ymarfer Oedolion a Cham-drin Domestig: 1
Lladdiad Iechyd Meddwl: 1

## Newyddion

ico.
Information Commissioner’s Office

Mae'r Tîm ADUS yn gweithio gyda chydweithwyr yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r cwmni cyfreithiol Geldards i gyflwyno Seminar Cinio a Dysgu ar gyfer Swyddogion Diogelu Data ar draws y sector Iechyd. Bydd y seminar ar-lein yn archwilio'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth at ddibenion ADUS, dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin ac yn darparu sesiwn holi ac ateb. Bydd y seminar, a gynhelir ym mis Gorffennaf, yn cael ei recordio, gyda'r bwriad o gael ei ddefnyddio fel adnodd yn y dyfodol.

# Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth

Cynhaliwyd y Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth cyntaf ar 20 Mai ac roedd cydweithwyr o bob cwr o Gymru yn bresennol. Diolch yn fawr i'r siaradwyr ac i hwyluswyr y sesiynau trafod am eu sgyrsiau craff a roddodd digon inni feddwl amdano. Bydd cofnodion y gynhadledd yn cael eu gylchredeg yn ystod yr wythnosau nesaf.




# Hyfforddiant

Mae animeiddiwr wedi cael ei gomisiynu i ddechrau cyflwyno cyfres o fideos hyfforddi i ddiwallu anghenion grwpiau ehangach o dan Fframwaith Dysgu a Datblygu ADUS, fel uwch arweinwyr a mynychwyr digwyddiadau dysgu, yn ogystal ag adnodd ehangach “Ymwybyddiaeth i Bawb”.

# Arferion da

Awgrym - Anogir adolygwyr i ddefnyddio paragraffau wedi'u rhifo yn eu hadroddiadau ADUS. Mae hyn wedi'i nodi fel arfer da ac yn hynod ddefnyddiol yn ystod yr ADUS peilot.

# Cyhoeddiad ADUS

Cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yr Adroddiad a'r Nodyn Briffio 7 Munud ar gyfer yr Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol peilot a gynhaliwyd fel ADUS ar 15 o Fai.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

# Cynghorwyr Arbennig

Mae'r Hwb Cydgysylltu yn gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG i nodi cronfa o gynghorwyr a all gynorthwyo mewn ADUS sy'n ymwneud â materion iechyd meddwl cymhleth. Bydd y rhestr o gynghorwyr yn cael ei hatodi i'r Rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy ac ar gael i Unedau Busnes y Bwrdd Diogelu.